

Polisi Ffilmio, Radio a Ffotograffiaeth

Fersiwn allanol

Cynnwys

1. Rhagarweiniad
2. Nod ac amcanion
3. Awdurdodi
4. Rhag drefniadau
5. Trefniadau ar y diwrnod
6. Rheolau a rheoliadau
7. Darlledu, newyddiaduraeth a ffotograffiaeth newyddion a materion cyfoes
8. Ceisiadau am gyfweiliad
9. Hebrwng
10. Ffilmio a ffotograffiaeth masnachol
11. Prosiectau prifysgolion, ysgolion ac elusenol
12. Gwybodaeth ar gyfer staff mewnol
13. Manylion cyswllt

1. Rhagarweiniad

Datblygwyd polisi ffilmio, radio a ffotograffiaeth Maes Awyr Caerdydd ar gyfer y dibenion canlynol:

- I amlinellu'r holl reoliadau sy'n gysylltiedig â ffilmio, recordio ar gyfer radio neu ddarlledu, a ffotograffiaeth yn y maes awyr
- I sicrhau fod pob criw ffilm, radio a ffotograffiaeth yn ymwybodol o ddulliau gweithredu'r maes awyr pan fyddant ar y safle
- I amlinellu'r anghenion a'r canllawiau ar gyfer darlledu, gohebu a ffotograffiaeth ynghlwm â newyddion a materion cyfoes
- I fod yn gyson wrth ymdrin â chyfryngau darlledu a'r wasg
- I amlinellu costau, canllawiau ac anghenion sy'n gysylltiedig â ffilmio, recordio ar gyfer radio neu ddarlledu, a ffotograffiaeth masnachol

Noder: Mae 'Lleoliadau heb fynd trwy'r system ddiogelwch' yn cyfeirio at bob ardal gyhoeddus ar safle'r maes awyr, gan gynnwys meysydd parcio a thu allan i'r derfynfa, y neuadd gofrestru, ardal y bar a'r caffi ar y llawr cyntaf a'r neuadd gyrraedd.

Mae 'Lleoliadau wedi mynd trwy'r system ddiogelwch' yn cyfeirio at bob ardal sydd angen caniatâd diogelwch ar safle'r maes awyr, gan gynnwys y llofa ymadael, gatieu ymadael a chyrraedd, ardaloedd ramp allanol neuadd gasglu bagiau, neuadd mewnfudo a'r llofa foethus.

Mae 'Ochr Ddeheuol' yn cyfeirio at bob ardal ar ochr ddeheuol y maes awyr, gan gynnwys Ysgol Hedfan Aeros a'r café, Gorsaf Dân Serco, Cymorth Hedfan Signature, Dragonfly, Awyrendy Norman ac unrhyw dir arall sy'n eiddo i'r maes awyr ar yr ochr ddeheuol y mae modd ei gyrraedd drwy bentref Y Rhŵs.

Mae 'Darlledu' yn cyfeirio at unigolion neu griwiau teledu a radio

Mae 'Recordio' yn cyfeirio at recordio sain neu lun neu'r ddau

Mae 'Ffilmio' yn cyfeirio at unrhyw ddefnydd o gamerâu ac offer sain ar gyfer:

- teledu, boed yn ddarllediad byw neu ddeunydd wedi'i recordio
- recordio masnachol neu anfasnachol ar gyfer pa ddiben bynnag, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, prif ffilmiau, deunydd addysgiadol, deunydd hyrwyddo, deunydd gwefan

Mae 'Radio' yn cyfeirio at ddefnydd o feicroffonau ar gyfer pa ddiben bynnag, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i:

- ddarllediad byw neu ddeunydd wedi'i recordio ar gyfer dibenion masnachol neu anfasnachol
- ddefnydd o ddeunydd sain a recordiwyd ar gyfer dibenion gwefan

2. Nod ac amcanion

Nod ac amcanion Maes Awyr Caerdydd yw i:

- Sicrhau fod pob ffilmio, recordio a ffotograffiaeth yn y maes awyr yn digwydd mewn dull cyfrifol a diogel gan ddilyn yr holl reoliadau diogelwch
- Geisio cynorthwyo pob criw ffilm, radio a ffotograffiaeth gyda'u ceisiadau pryd bynnag fo hynny'n bosibl
- Fod yn gyson wrth gyfathrebu gyda chriwiau ffilm, radio a ffotograffiaeth
- Sefydlu perthynas waith gadarnhaol gyda chriwiau ffilm, radio a ffotograffiaeth

3. Awdurdodi

Swyddfa'r Wasg ym Maes Awyr Caerdydd sy'n awdurdodi ffilmio, recordio a ffotograffiaeth.

Bydd Maes Awyr Caerdydd bob amser yn ymdrechu i gydweithio gyda'r cyfryngau pan dderbynnir cais am ganiatâd i ddefnyddio adnoddau y maes awyr. Bydd pob cais am fynediad yn cael ei ystyried yn unigol a gall gael ei ganiatáu neu ei wrthod yn ddibynnol ar gynnwys, ymarferoldeb, adnoddau, materion gweithredol neu faterion eraill. Ceidw'r maes awyr yr hawl i wrthod caniatâd ffilmio, recordio neu ffotograffiaeth yn ei adeiladau.

Mae angen caniatâd gan Swyddfa'r Wasg ym Maes Awyr Caerdydd ar gyfer ffilmio, recordio neu ffotograffiaeth ar unrhyw dir sy'n eiddo i'r maes awyr, gan gynnwys meysydd parcio, ffyrdd dynesu ac ar Ochr Ddeheuol y maes glanio.

Bydd unrhyw griwiau neu unigolion fydd yn ffilmio, recordio neu'n tynnu lluniau yn y maes awyr sydd heb ofyn am, neu heb dderbyn caniatâd, yn cael eu riportio i staff Diogelwch y Maes Awyr ac i Heddlu'r Maes Awyr.

I gael eu hawdurdodi, gofynnir i'r holl gyfryngau gysylltu â swyddfa'r wasg ar 01446 729311 cyn cyrraedd y maes awyr. Ni roddir caniatâd i unrhyw griw neu unigolyn fydd yn cyrraedd y maes awyr heb drefnu ymlaen llaw.

Gofynnir i griwiau ffilm, radio a ffotograffiaeth a awdurdodwyd i ffilmio, recordio neu dynnu lluniau yn y maes awyr gofrestru eu manylion drwy lenwi ffurflen caniatâd ffilmio. Rhaid i gopi uchaf y ffurflen ganiatâd fod ym meddiant aelod o'r criw drwy'r amser ac ar gael i'w arddangos ar gais unrhyw gynrychiolydd o'r maes awyr, y gwasanaeth diogelwch neu'r heddlu. Mae hyn hefyd yn berthnasol i griwiau ffilm, radio neu ffotograffiaeth sy'n deithwyr ar awyrennau o Faes Awyr Caerdydd.

Ceidw Maes Awyr Caerdydd hefyd yr hawl i atal dros dro unrhyw weithgaredd am resymau gweithredol, neu er mwyn addasu amodau a thelerau'r caniatâd a awdurdodwyd oherwydd rheoliadau gwahanol neu ofynion y maes awyr.

4. Rhag drefniadau

Swyddfa'r Wasg ym Maes Awyr Caerdydd sy'n gyfrifol am holl drefniadau ffilmio, recordio a ffotograffiaeth.

Rhaid i bob trefniant darlledu a chyfryngau'r wasg ym myd newyddion a materion cyfoes gael eu gwneud dros y ffôn neu drwy e-bost cyn i'r unigolyn/criw gyrraedd y maes awyr.

Rhaid trefnu pob ffilmio a ffotograffiaeth masnachol mewn lleoliadau heb fynd trwy'r system ddiogelwch o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad ffilmio arfaethedig.

Rhaid trefnu pob ffilmio a ffotograffiaeth masnachol mewn lleoliadau wedi mynd trwy'r system ddiogelwch o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y dyddiad ffilmio arfaethedig.

Rhaid trefnu pob ffilmio a ffotograffiaeth masnachol Ochr Ddeheuol o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y dyddiad ffilmio arfaethedig.

Ar ambell achlysur efallai bydd gofyn ymestyn y cyfnod trefnu ar gyfer ffilmio a ffotograffiaeth masnachol yn ddibynnol ar natur y prosiect ar adnoddau sydd ar gael.

Gofynnir i griwiau ffilmio, radio a ffotograffiaeth a gafodd ganiatâd i ffilmio, recordio neu dynnu lluniau mewn lleoliadau wedi mynd trwy'r system ddiogelwch lenwi ffurflenni diogelwch ymwelwyr cyn cyrraedd y maes awyr. Gellir llwytho rhain i lawr o wefan y maes awyr, www.cardiff-airport.com.

5. Trefniadau ar y diwrnod

Rhaid i'r holl gyfryngau darlledu a'r wasg, boed fasnachol neu anfasnachol, lynu at y trefniadau canlynol wrth ffilmio mewn lleoliadau cyn neu wedi mynd trwy'r system ddiogelwch:

a. Parcio

Holl bersonél y cyfryngau i barcio yn y Maes Parcio Cyfnod Byr oni threfnwyd yn wahanol. Ni ellir cynnig parcio di-dâl.

b. Cyrraedd

Rhaid i holl bersonél y cyfryngau gofrestru yn y Swyddfa Ddiogelwch wrth gyrraedd. Mae'r Swyddfa Ddiogelwch wedi'i lleoli i'r dde o'r derfynfa.

c. Cofrestru

Bydd llyfr caniatâd i'r cyfryngau ar gael i'w arwyddo yn y Swyddfa Ddiogelwch. Rhaid cwblhau'r manylion cyn dechrau ffilmio, recordio neu dynnu lluniau, a rhaid i'r copi uchaf o'r ffurflen ganiatâd fod ym meddiant y criw/unigolyn trwy'r amser. Efallai y gofynnir i unrhyw aelod o'r cyfryngau fydd ar y safle heb gopi uchaf y ffurflen ganiatâd adael y safle.

Rhaid i unrhyw griw ffilm, radio neu ffotograffiaeth sy'n teithio ar awyrennau o Faes Awyr Caerdydd ymweld â'r Swyddfa Ddiogelwch a llenwi ffurflen ganiatâd wrth gyrraedd y maes awyr cyn cofrestru am eu taith.

Rhaid i'r holl gyfryngau sydd angen mynediad i leoliadau wedi mynd trwy'r system ddiogelwch ddangos un o'r eitemau adnabod ffotograffig canlynol er mwyn derbyn trwydded ymwelydd i leoliadau wedi mynd trwy'r system ddiogelwch:

- i. Trwydded yrru ffotograffig gyda gwrthran bapur
- ii. Pasbort

Ni dderbynnir eitemau adnabod ffotograffig eraill, ac ni ddarperir trwyddedau ymwelwyr i leoliadau wedi mynd trwy'r system ddiogelwch heb un o'r eitemau adnabod uchod. **Ni fydd eithriad i'r rheol hon.**

Gofynnir i'r cyfryngau sydd angen mynediad i leoliadau wedi mynd trwy'r system ddiogelwch hefyd i lenwi ffurflen drwydded ymwelydd, sydd ar gael i'w llwytho i lawr o www.cardiff-airport.com.

ch. Siacedi gwelededd amlwg

Rhaid i holl bersonél y cyfryngau wisgo siacedi gwelededd amlwg oren 'Cyfryngau' drwy'r amser pan yn ffilmio, gohebu, recordio neu dynnu lluniau ar y safle.

Mewnol

Caniateir i ohebwy, cyflwynwyr ac actorion mewn lleoliadau mewnol (rhai wedi mynd trwy'r system ddiogelwch a rhai heb fynd trwy'r system) dynnu'r siaced welededd amlwg pan yn perfformio o flaen y camera. Rhaid gwisgo'r siaced eto ar unwaith pan nad o flaen y camera.

Allanol

Caniateir i ohebwy, cyflwynwyr ac actorion mewn lleoliadau allanol dynnu'r siaced welededd amlwg pan yn perfformio o flaen y camera. Rhaid gwisgo'r siaced eto ar unwaith pan nad o flaen y camera.

Rhaid i holl bersonél y cyfryngau (gan gynnwys rhai sy'n perfformio o flaen y camera) wisgo siacedi gwelededd amlwg oren 'Cyfryngau' pan fyddant y tu allan mewn lleoliadau wedi mynd trwy'r system ddiogelwch, heb eithriad. Gofynnir iddynt hefyd wisgo amddiffynwyr clustiau (a ddarperir gan Faes Awyr Caerdydd) o dan amodau swnllyd.

Rhoddir y siacedi gwelededd amlwg i bersonél y cyfryngau wrth gyrraedd y Swyddfa Ddiogelwch gan eu hebryngwr neu swyddog diogelwch. Efallai y gofynnir i unrhyw aelod o'r cyfryngau heb siaced welededd amlwg adael y safle.

d. Arwyddo cyn ymadael

Rhaid i holl bersonél y cyfryngau a gafodd hawl i ffilmio, recordio neu dynnu lluniau adrodd yn ôl i'r Swyddfa Ddiogelwch wrth ymadael er mwyn arwyddo a dychwelyd eu siacedi gwelededd amlwg.

Noder. Rhaid i aelodau o'r cyfryngau sy'n ffilmio ar Ochr Ddeheuol y maes glanio gysylltu â swyddfa'r wasg yn y maes awyr pan fyddant wedi cyrraedd.

6. Rheolau a rheoliadau

Mae'r rheolau a'r rheoliadau canlynol yn berthnasol i unrhyw ffilmio, recordio a ffotograffiaeth yn y maes awyr, boed fasnachol neu anfasnachol:

a. Diogelwch

Mae'n groes i reoliadau yr Adran Drafnidiaeth i ffilmio, recordio neu dynnu lluniau o unrhyw safleoedd diogelwch, personél diogelwch neu ddull gweithredu. Ni ddylid ffilmio, recordio na thynnu lluniau o unrhyw nodwedd a gysylltir â diogelwch yn y maes awyr o dan unrhyw amgylchiadau.

b. Heddlu'r Maes Awyr a Heddlu Arbennig

Gwaherddir ffilmio, recordio neu dynnu lluniau o swyddogion Heddlu'r Maes Awyr neu Heddlu Arbennig.

c. Brandio Trydydd Parti

Gofynnir i griwiau/unigolion ffilmio a ffotograffiaeth i beidio ffilmio neu dynnu lluniau o frandio cwmnïau allanol megis hysbysebion, arwyddion a logos, heb yn gyntaf gael caniatâd y cwmni trydydd parti. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- i. Cwmnïau Hedfan/Trefnwyr Teithiau
- ii. Cwmnïau cludo
- iii. Unedau man werthu
- iv. Unedau arlwy

Os rhoddir caniatâd gan y cwmni trydydd parti, bydd gofyn i dîm y wasg Maes Awyr Caerdydd fod wedi derbyn cadarnhad ysgrifenedig cyn y sesiwn ffilmio/tynnu lluniau yn y maes awyr.

ch. Staff y Maes Awyr

Ni ddylid ffilmio, recordio na thynnu llun o aelodau staff Maes Awyr Caerdydd heb yn gyntaf dderbyn caniatâd gan Swyddfa'r Wasg ym Maes Awyr Caerdydd.

d. Staff Cwmnïau Partner

Rhaid hysbysu'r rheolwr safle lleol perthnasol, a sicrhau ei ganiatâd/chaniatâd os am ffilmio, recordio neu dynnu llun aelod o staff sy'n gweithio i un o'r cwmnïau partner sydd â'i ganolfan yn y maes awyr. Nid yw cael caniatâd yr unigolyn o dan sylw yn ddigonol.

dd. Neuadd Gofrestru

Ni chaniateir ffilmio, recordio, tynnu lluniau na holi teithwyr sy'n ciwio i gofrestru. Caniateir gofyn i deithwyr am gyfweiliad, 'vox pops' neu dynnu lluniau yn y neuadd gofrestru yn unig os nad ydynt yn ciwio wrth y desgiau cofrestru ac yn unig gyda chaniatâd ymlaen llaw gan swyddfa'r wasg yn y maes awyr.

e. Neuadd Fewnfudo

Rhaid cael caniatâd ymlaen llaw gan swyddfa'r wasg a thîm lleol Asiantaeth Ffiniau'r DU cyn ffilmio, recordio neu dynnu lluniau yn y Neuadd Fewnfudo. Mae'r rheoliadau pan yn ffilmio, recordio neu dynnu lluniau yn y Neuadd Fewnfudo yn cynnwys:

- i. Gwaharddiad ar ffilmio/dynnu lluniau o staff AFfDU heb ganiatâd ymlaen llaw
- ii. Gwaharddiad ar ffilmio/dynnu lluniau o sgriniau cyfrifiadurol
- iii. Gwaharddiad ar ffilmio/dynnu lluniau o deithwyr yn mynd trwy arolygaeth pasbort
- iv. Rhaid i aelod o staff AFfDU fod yn bresennol yn barhaol gyda'r criw/unigolyn ffilmio/ffotograffiaeth, yn ogystal â hebryngwr y maes awyr

f. Neuadd Gasglu Bagiau

Rheolir y Neuadd Gasglu Bagiau gan AFfDU ac felly rhaid cael caniatâd ymlaen llaw gan dîm y wasg a staff lleol AFfDU cyn ffilmio, recordio neu dynnu lluniau. Gwaherddir ffilmio neu dynnu lluniau o staff AFfDU heb gael caniatâd ymlaen llaw.

ff. Neuadd Dollau

Ni chaniateir ffilmio, recordio neu dynnu lluniau yn y Neuadd Dollau heb gael caniatâd ymlaen llaw gan swyddfa'r wasg a thîm lleol Awdurdod Ffiniau y DU. Mae'r rheoliadau yn cynnwys:

- i. Gwaharddiad ar ffilmio/dynnu lluniau o staff AFfDU heb ganiatâd ymlaen llaw
- ii. Gwaharddiad ar ffilmio/dynnu lluniau o deithwyr yn y Neuadd Dollau heb ganiatâd y teithwyr ac AFfDU
- iii. Rhaid i aelod o staff AFfDU fod yn bresennol yn barhaol gyda'r criw/unigolyn ffilmio/ffotograffiaeth, yn ogystal â hebryngwr y maes awyr

g. Cyffredinol

Ni ddylai unrhyw ffilmio, recordio neu ffotograffiaeth yn y maes awyr amharu ar unrhyw adeg ar weithrediadau arferol y maes awyr nac ar ei staff na theithwyr. Gofynnir i griwiau ffilm, radio a ffotograffiaeth fod yn ystyriol o staff a theithwyr y maes awyr yn barhaol tra ar y safle.

Cyn tynnu llun(iau) o aelod o'r cyhoedd rhaid gofyn am ei ganiatâd/chaniatâd a chael ffurflen gydsynio wedi'i harwyddo. Rhaid i riant neu warchodwr arwyddo ffurflen gydsynio ar ran plentyn (o dan 16 oed) os am dynnu llun(iau) o'r plentyn.

Bydd Maes Awyr Caerdydd yn darparu'r ffurflen gydsynio os mai ar ran y maes awyr y tynnir y llun(iau) a bydd y maes awyr yn cadw hawlfraint y delweddau hynny. Os bwriedir y lluniau ar gyfer dibenion allanol rhaid i'r ffotograffydd ddarparu ei ffurflenni cydsynio ei hun.

Ceidw'r maes awyr yr hawl i hebrwng oddi ar y safle unrhyw griwiau/unigolion ffilmio, radio neu ffotograffiaeth sydd ddim yn cadw at y rheolau a'r rheoliadau a amlinellwyd.

7. Darlledu, newyddiaduraeth a ffotograffiaeth newyddion a materion cyfoes

Mae'r maes awyr yn ymdrechu i gydweithio gyda'r cyfryngau barhaol drwy gyfrwng swyddfa'r wasg sydd ar agor 24 awr y dydd bob dydd.

Bydd Swyddfa'r Wasg ym Maes Awyr Caerdydd bob amser yn parchu aelodau o'r cyfryngau a bydd bob amser yn ceisio caniatáu unrhyw gais gan gynorthwyo mewn pob dull posibl, beth bynnag fo cyd-destun, cynnwys neu natur yr ymholiad. Byddai Swyddfa'r Wasg ym Maes Awyr Caerdydd yn disgwyl i bersonél y cyfryngau yn eu tro i ddangos yr un parch, drwy arddel onestrwydd ac ymddygiad cyfrifol bob amser. Gallai peidio cydymffurfio arwain at hebrwng y cwmni cyfryngol neu'r unigolyn oddi ar y safle gan wrthod mynediad i'r maes awyr yn y dyfodol.

Rhaid i bob cais i ffilmio, tynnu lluniau a darlledu gael ei gyflwyno i swyddfa'r wasg cyn cyrraedd y maes awyr, a chaiff pob cais ei ystyried yn unigol cyn rhoi caniatâd.

Ceidw Maes Awyr Caerdydd yr hawl i wrthod mynediad i ffilmio, tynnu lluniau neu ddarlledu ar ei eiddo.

Nid oes raid i Faes Awyr Caerdydd roi rheswm am wrthod mynediad, a bydd unrhyw aelod o'r cyfryngau a wrthodwyd mynedfa iddo/iddi yn cael ei hebrwng o'r safle gan staff Diogelwch y Maes Awyr neu'r heddlu.

Mae Maes Awyr Caerdydd hefyd yn cadw'r hawl i atal dros dro unrhyw weithgaredd am resymau gweithredol, neu er mwyn addasu amodau a thelerau'r caniatâd a awdurdodwyd oherwydd rheoliadau gwahanol neu ofynion y maes awyr.

8. Ceisiadau am gyfweiliad

a. Cynrychiolwyr y Maes Awyr

Mae gan Faes Awyr Caerdydd lefarwyr wedi'i hyfforddi ar gyfer cynnal cyfweiliadau gyda'r cyfryngau a'r wasg yn y Gymraeg ac yn y Saesneg.

Ystyriwch pob cais am gyfweiliad yn unigol, a bydd Maes Awyr Caerdydd yn ymdrechu i ddarparu cynrychiolydd ar gyfer cyfweiliadau pan fo hynny'n addas neu'n bosibl. Dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw, ac nid oes rhaid i'r maes awyr gynnig eglurhad os nad ydym yn gallu cynorthwyo.

Y drefn arferol yw cynnal pob cyfweiliad teledu a radio ar y safle yn y maes awyr, naill ai wyneb yn wyneb gyda gohebydd neu drwy linell ffôn (dir) ar gyfer darllediadau radio.

Ni fydd llefarwyr ar ran Maes Awyr Caerdydd yn cynnig cyfweiliadau ar ran cwmnïau trydydd parti gan gynnwys cwmnïau awyrennau, trefnwyr teithiau neu gwmnïau partner eraill sy'n weithredol ar y safle.

b. Teithwyr

Rhaid i aelodau o'r cyfryngau gael caniatâd gan swyddfa'r wasg cyn cynnal cyfweiliadau neu 'vox pops' gyda theithwyr. Bydd unrhyw unigolyn/criw na wnaeth gais, neu a wrthodwyd caniatâd i gyfweld â theithwyr, yn cael ei/eu hebrwng o'r safle pe byddai/byddent yn ceisio cynnal cyfweiliad.

Blaenoriaeth Maes Awyr Caerdydd yw i sicrhau fod y maes awyr yn gweithredu yn ddiogel ac yn effeithlon ynghyd â buddiannau ei deithwyr, ac felly, er bydd y maes awyr yn rhoi caniatâd i'r cyfryngau fynd at deithwyr pan fo hynny'n briodol, yn achlysurol efallai bydd y cais yn cael ei wrthod.

Bydd unrhyw gais gan y cyfryngau i gyfweld, mynd at, ffilmio neu dynnu lluniau o unigolion penodol sy'n teithio drwy'r maes awyr yn cael ei wrthod oni bydd caniatâd ysgrifenedig neu lafar wedi'i dderbyn ymlaen llaw yn uniongyrchol gan yr unigolyn hwnnw. Ni fydd y maes awyr yn caniatáu unigolion/crïwiau ffilm, radio neu ffotograffiaeth fynediad i'r safle os byddant yn dymuno mynd at, holi'n ymosodol, neu ffilmio, recordio neu dynnu lluniau o unrhyw unigolyn heb yn wybod iddo/iddi neu heb gael caniatâd ganddo/ganddi.

c. Staff

Ni ddylid cyfweld unrhyw aelod o staff y maes awyr neu gwmni partner o dan unrhyw amgylchiadau heb gael caniatâd ymlaen llaw gan swyddfa'r wasg y cwmni cyflogi.

Os yw swyddfa'r wasg y cwmni wedi rhoi caniatâd, rhaid i'r cyfweiliad beidio ymyrryd neu amharu ar ddyletswyddau beunyddiol y gweithiwr.

9. Hebrwng

Mae rheoliadau diogelwch caeth mewn grym mewn maes awyr, ac ar rai achlysuron mae'n hanfodol i griwiau/unigolion gael eu hebrwng gan aelod o staff y maes awyr neu'r staff diogelwch.

Mae angen o leiaf un hebryngwr am bob 4-6 o bobl tra'n ffilmio, recordio neu dynnu lluniau mewn lleoliadau wedi mynd trwy'r system ddiogelwch. Bydd union niferoedd yr hebryngwyr angenrheidiol yn ddibynnol ar leoliad a natur y saethu. O'r herwydd, ni chaniateir mynediad i leoliadau wedi mynd trwy'r system ddiogelwch pan fydd adnoddau'n brin neu heb drefniadau digonol ymlaen llaw.

Nid yw o reidrwydd yn ofynnol i bersonél ffilm, radio a ffotograffiaeth gael eu hebrwng mewn lleoliadau heb fynd trwy'r system ddiogelwch ar bob achlysur; er hynny, mae'n bosibl y gelwir ar hebryngwyr yn ddibynnol ar natur y prosiect.

Mae Swyddfa'r Wasg ym Maes Awyr Caerdydd yn gyfrifol am drefnu hebryngwyr profiadol i gynorthwyo gydag ymweliadau gan y cyfryngau. Dylai staff y maes awyr neu gwmnïau partner bob amser gysylltu gyda swyddfa'r wasg yn y maes awyr cyn caniatáu mynediad neu hebrwng personél y cyfryngau i'r safle.

10. Ffilmio a ffotograffiaeth masnachol

Mae Maes Awyr Caerdydd yn croesawu ceisiadau ar gyfer ffilmio, recordio a ffotograffiaeth fasnachol.

Mae'r maes awyr yn awyddus i drafod yr holl bosibiliadau ffilmio a ffotograffiaeth gyda chwmnïau cynhyrchu a gall drefnu ymweliadau archwilio a pharatoi ar y safle er mwyn trafod manylion. Efallai y codir tâl ar y cwmni cynhyrchu yn ddibynol ar natur yr ymweliad.

Rhaid i unrhyw brosiect ffilmio, recordio neu ffotograffiaeth masnachol beidio ag ymyrryd â gweithrediadau beunyddiol Maes Awyr Caerdydd, nac unrhyw un o'i deithwyr na'i staff. Mae holl feini prawf rheolau, rheoliadau a threfniadau a amlinellir yn berthnasol i ffilmio a ffotograffiaeth masnachol.

Mae'r prisiau canlynol yn weithredol ar gyfer ffilmio, recordio a ffotograffiaeth masnachol:

Lleoliadau heb fynd trwy'r system ddiogelwch: £150 yr awr

Lleoliadau wedi mynd trwy'r system ddiogelwch: £250 yr awr

Hebryngwyr: £100 yr hebryngwr am hyd at 4 awr

Costau eraill

Efallai y codir tâl am ddarparu adnoddau ychwanegol e.e. defnyddio stafell gyfarfod ar gyfer cast a chriw dros y cyfnod. Bydd yr ychwanegiadau yma i'w trafod a chytuno arnynt cyn dechrau ffilmio/tynnu lluniau.

Gofynion

- a. Copi o Dystysgrif Atebolwydd Cyhoeddus y cwmni.
Dylid gyrru hwn ymlaen llaw cyn cyrraedd y maes awyr ar gyfer ffilmio neu dynnu lluniau.

Rhaid cael lleiafswm o £2m o sicrwydd yswiriant lleoliadau heb fynd trwy'r system ddiogelwch ac o leiaf £10m o sicrwydd yswiriant lleoliadau wedi mynd trwy'r system ddiogelwch. Yn ddibynol ar natur y prosiect ffilmio/ffotograffiaeth mae'n bosibl y bydd angen cynyddu'r ffigyrau yma.

Ni chaniateir mynediad i unrhyw griw ffilm, radio neu ffotograffiaeth sydd heb ddarparu copi o'i dystysgrif yswiriant atebolwydd cyhoeddus cyn cyrraedd y maes awyr hyd oni ddarperir y gwaith papur angenrheidiol.
- b. Asesiad risg wedi'i gyflawni gan y cwmni cynhyrchu.
Rhaid i bob cwmni cynhyrchu ymweld â'r safle cyn y diwrnod ffilmio/tynnu lluniau yn y maes awyr er mwyn cynnal asesiad risg sy'n amlygu pob risg posibl sydd ynghlwm yn benodol â'r prosiect yn y maes awyr.

Rhaid cyflwyno'r asesiad risg i dîm y wasg ym Maes Awyr Caerdydd o leiaf dri diwrnod cyn dyddiad cyntaf y saethu.

Ni chaniateir mynediad i unrhyw griw ffilm, radio neu ffotograffiaeth sydd heb ddarparu asesiad risg cyn cyrraedd y maes awyr hyd oni ddarperir y gwaith papur angenrheidiol.
- c. Rhaid i griwiau ffilmio a ffotograffiaeth sydd angen mynediad i leoliadau wedi mynd trwy'r system ddiogelwch lenwi ffurflenni diogelwch ymwelwyr cyn cyrraedd y maes awyr.
- ch. Rhif ffôn y cwmni a chyfeiriad ar gyfer anfonebu.

11. Prosiectau prifysgolion, ysgolion ac elusennol

Mae Maes Awyr Caerdydd wedi ymrwmo i gydweithio gyda'n cymuned ac o ganlyniad mae rhaglen Touchdown y maes awyr wedi nodi addysg, sgiliau, y celfyddydau a diwylliant fel meysydd allweddol i'w cefnogi.

O'r herwydd, rydym yn awyddus i gynorthwyo myfyrwyr prifysgol ac ysgol sydd angen mynediad i'r maes awyr ar gyfer prosiectau ffilmio a ffotograffiaeth, ac yn gallu cynnig y graddfeydd gostyngol canlynol ar gyfer prosiectau addysgiadol:

Lleoliadau heb fynd trwy'r system ddiogelwch: £90 yr awr (gostyngiad o 40%)

Lleoliadau wedi mynd trwy'r system ddiogelwch: £150 yr awr (gostyngiad o 40%)

Hebryngwyr: £90 yr hebryngwr am hyd at 4 awr (gostyngiad o 10%)

Mae'r holl reolau, rheoliadau a threfniadau a amlinellir uchod yn berthnasol i fyfyrwyr prifysgol ac ysgol. Byddwn hefyd angen cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt ar gyfer anfonebu.

13. Manylion cyswllt

Ar gyfer cyfryngau newyddion, darlledu a'r wasg cysylltwch â llinell swyddfa'r wasg 01446 729311 unrhyw awr o'r dydd neu'r nos. Bydd swyddog y wasg ar ddyletswydd yn ymdrin â'ch cais.

Ar gyfer ffilmio, recordio a ffotograffiaeth masnachol cysylltwch â Cassie Houghton ar cassie.houghton@cwl.aero neu 01446 712 595 (Llun - Gwener 9am-5pm).